# Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Dyffryn Ardudwy i 3-11

## Dogfen Ymgynghori

**Fersiwn plant cynradd**

**Medi 2018**

# CYFLWYNIAD

Mae Corff Llywodraethol Ysgol Dyffryn Ardudwy wedi gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried newid oedran plant sy'n gallu mynd i'r ysgol o 4-11 i 3-11.

Cyn gwneud y penderfyniad, mae rhaid i Gyngor Gwynedd roi gwybod i disgyblion yr ysgol am y cynnig a rhoi cyfle iddynt gynnig sylwadau ar y syniad.

**Beth mae'r newid yma yn ei olygu?**

- **Bydd plant yn gallu cychwyn yr ysgol yn 3 oed**
- **Bydd dosbarth newydd yn yr ysgol, sef dosbarth meithrin**
- **Mi fydd yna ychydig mwy o blant yn yr ysgol**

**Beth  wyt ti yn meddwl o'r syniad?**

Cyn i Gyngor Gwynedd benderfynu os ydynt am newid yr oedran, rydym eisiau clywed dy farn di am y syniad.

**Sut  mae gwneud hyn?**

Mae croeso i unrhyw ddisgybl anfon sylwadau inni er mwyn rhoi eu barn.

Er mwyn gwneud hyn gellir cwblhau yr holiadur isod.

Mae angen i'r Cyngor dderbyn sylwadau erbyn 29 Hydref 2018.

# Holiadur

**Mae Cyngor Gwynedd ac Ysgol Dyffryn Ardudwy yn meddwl newid oedran plant fydd yn gallu mynd i'ch ysgol.**

**Mi fydd hyn yn golygu cael dosbarth meithrin fel bod plant yn gallu cychwyn yr ysgol yn 3 oed.**

- **Sut wyt ti'n teimlo am hyn? (Ticia un dewis)**



- Oes yna unrhyw beth yn dy boeni am hyn?

- Oes yna unrhyw beth arall wyt ti eisiau ei ddweud am y syniad?

**Mi fedri di ddefnyddio tudalen ychwanegol os wyt ti eisiau ysgrifennu mwy.**

**Diolch yn fawr am roi amser i lenwi'r holiadur yma.**

## Angen mwy o wybodaeth?

- Am fwy o wybodaeth ewch ar safle wê'r Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

- Gallwch gysylltu â'r Cyngor drwy e-bostio: Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

- Gallwch anfon llythyr/sylwadau/holiadur drwy'r post at:

  Swyddfa Moderneiddio Addysg,
  Cyngor Gwynedd
  Caernarfon
  Gwynedd
  LL55 1SH